# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15-09.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.45)

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Tynnu Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur i'w nodi 1

### 2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

(Tudalennau 2 - 4)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur i'w nodi 2

**2.3 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Tystiolaeth a glywyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Mehefin**

(Tudalennau 5 - 9)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur i'w nodi 3

**2.4 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch camau dilynol o'r cyfarfod ar 11 Mai**

(Tudalennau 10 - 14)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur i'w nodi 4

**2.5 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch Gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 16 Gorffennaf**

(Tudalennau 15 - 20)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur i'w nodi 5

## 3 Covid-19: Adferiad - Academyddion

(09.45-10.45) (Tudalennau 21 - 35)

Yr Athro Dylan Jones-Evans, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol, Prifysgol De Cymru

Yr Athro Andrew Henley, Cyfarwyddwr Ymgysylltu ag Ymchwil ac Effaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Gillian Bristow, Athro mewn Daearyddiaeth Economaidd, Prifysgol Caerdydd

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-16-20 - Papur Briffio

**Egwyl (10.45-10.55)**

## 4 Adferiad - Melinau Trafod

(10.55-11.55)

Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan

David Hagendyk, Cyfarwyddwr Cymru, y Sefydliad Dysgu a Gwaith

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 6 Preifat

(11.55-12.15)

COVID-19: Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Tynnu'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fy mod yn tynnu'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 26.79. Rwy'n ddiolchgar iawn am eich asesiad ystyriol o'r ddeddfwriaeth hon a'ch penderfyniad cyn ei chyflwyno. Fodd bynnag, mae'r heriau y mae'r Llywodraeth yn eu hwynebu o ran cyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol oherwydd Covid-19 a phontio o'r UE, a chyfyngwyd gan effaith y pandemig ar y diwydiant bysiau, yn golygu bod y Prif Weinidog a minnau wedi cytuno i dynnu'r Bil yn ôl. Bydd y Prif Weinidog yn cadarnhau'r penderfyniad hwn yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn ddiweddarach heddiw

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth ac Owain Roberts, Pennaeth y Swyddfa Gyflwyno

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

22 Gorffennaf 2020

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22:**

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Ymhellach at ddadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ar 15 Gorffennaf 2020, rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i drafod sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf cydlynol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Y prif feysydd craffu ar y gyllideb**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i barhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, sy'n ymwneud â'r pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a
- **Phrosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Ysgrifennais atoch ar 1 Mehefin 2020, i roi gwybod i chi, o ystyried y cyfyngiadau cymdeithasol ar hyn o bryd, na fyddem yn cynnal ein digwyddiad blynyddol i randdeiliaid. Yn lle hynny, cynhaliodd y Pwyllgor waith ymgysylltu ar-lein gan ddefnyddio arolygon barn a chwestiynau ar Twitter yn gofyn i'r cyhoedd awgrymu meysydd y dylid eu blaenoriaethu. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael. Er bod yr ymarferiad ymgysylltu yn gyfyngedig o ran cwmpas eleni, gan fod y sampl yn hunan-ddewis ac nid yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth, rhoddodd gipolwg diddorol ar safbwyntiau ac amlygwyd y rhain yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau gwariant ar 15 Gorffennaf 2020. Rwy'n falch iawn o gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno y dylid cynnal dadl o'r math hwn bob blwyddyn ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau a gyfrannodd at y ddadl.

Yn sicr, bydd yr adferiad o ganlyniad i bandemig Covid-19, a diwedd cyfnod pontio Brexit yn effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2021-22. Yn ogystal â hynny, yn dilyn ein gwaith ymgysylltu a'r cyfraniadau a wnaed yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu.*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd.*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.*
- *Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.*
- *Cefnogaeth i fusnesau. twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben.*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn eich annog i ganolbwyntio ar rai o'r meysydd hyn yn eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Amserlen**

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref. Fodd bynnag, caiff ei hoedi eleni gan nad oes gan Lywodraeth Cymru arwydd o gyfanswm y cyllid sydd ar gael nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cyllideb neu Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ac er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20, nododd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd ar 8 Rhagfyr 2020, a'r Gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y bydd yn darparu amserlen bendant cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb.

**Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn seiliedig ar yr amserlen a gynigiwyd gan y Gweinidog, mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ychydig yn hwyrach eleni ym mis Medi/Hydref. Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal

ymgynghoriad ar ran yr holl bwyllgorau a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu â chi yn yr hydref er mwyn eich helpu i graffu ar y gyllideb ddrafft. Fel bob amser, byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo ein hymgynghoriad drwy eich dulliau cyfathrebu eich hun er mwyn annog ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

Fel y gwyddoch, newidiodd y darpariaethau o ran adrodd gan bwyllgorau polisi yn 2017, ac rydych bellach yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hunan (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Glerc y Pwyllgor Cyllid, Bethan Davies, ar 0300 200 6372, neu seneddcyllid@senedd.cymru,

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddESS@senedd.cymru

12 Awst 2020

Annwyl Russell

Diolch am y cyfle i ymateb i'r dystiolaeth a gymeroch ar 18 Mehefin ar effeithiau pandemig y Coronaferiws ar drafnidiaeth gyhoeddus ac i fynegi ein barn ar y materion isod:

**Y cyfnod adfer ac ariannu bysiau**

Rydym eisoes wedi darparu pecyn gwerth £29m o gymorth i weithredwyr bysiau, gan gynnwys cludiant cymunedol, drwy'r Gronfa Galedi ar gyfer y Sector Bysiau er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn ychwanegol at y grantiau a'r cymorth ariannol sydd ar gael drwy gynlluniau gan Busnes Cymru a Llywodraeth y DU, megis y Cynllun Cadw Swyddi.

Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai diwydiant bysiau Cymru yn cael ei ariannu drwy Gynllun Brys newydd ar gyfer y Sector Bysiau. Caiff y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ei gyflwyno fesul cam a bydd yn cynnig rhwydwaith mwy integredig a hyblyg er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb i'r galw, yn darparu gwasanaethau hyblyg ac yn dyrannu unrhyw gyllid ychwanegol. Bydd y cyllid brys hwn, a gynhelir ar lefelau hanesyddol ar hyn o bryd, am gyfnod cychwynnol o dri mis a bydd yn darparu cymorth ariannol i'r diwydiant bysiau er mwyn sicrhau bod bysiau yn parhau i symud ledled Cymru.

Bydd y Cynllun yn darparu cymhorthdal gweithredu yn lle refeniw a gollwyd o ganlyniad i COVID-19 a bydd bysiau yn cludo llawer llai o deithwyr o ganlyniad i'r rheolau cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal â diwallu anghenion byrdymor brys, bwriedir i'r cytundeb sy'n sail i'r Cynllun gynrychioli dechrau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus er mwyn gallu ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru, gan gefnogi'r broses reoli a rhyngweithio ar draws moddau o drafnidiaeth, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, llwybrau unedig a threfniadau amserlennu integredig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd gweithredwyr yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i benderfynu ar y llwybrau cychwynnol a pha mor aml y dylai gweithredwyr redeg gwasanaethau yn unol â'r cyllid sydd ar gael. Wrth gytuno ar y lefelau hyn ar gyfer gwasanaethau bysiau, bydd angen ystyried y canlynol:

- y ffordd orau o wasanaethu gweithwyr allweddol (gan gynnwys staff y GIG, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt);
- y ffordd orau o gefnogi gweithgarwch economaidd wrth i'r economi ailgychwyn;
- capasiti bysiau'r Gweithredwyr o ystyried y gostyngiad mewn patrymau gwasanaeth a'r gofyniad i gydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol;
- sut i ymdopi ag unrhyw brinder staff y mae Gweithredwyr yn ei wynebu.

Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru, yn dylunio cynllun ariannu newydd ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a fydd yn cynnwys dull teg a chyson o bennu prisiau siwrneiau a chynyddu defnydd, a chytundeb ag egwyddorion y Contract Economaidd a Siarter Gymdeithasol. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella gwasanaethau i deithwyr, gan gynnwys glendid, dibynadwyedd a diogelwch, a fydd yn hanfodol yn ystod y cyfnod adfer wrth inni gydweithio i sicrhau rhwydwaith bysiau effeithlon, cynaliadwy a chadarn ar gyfer y dyfodol.

Rwyf ar ddeall i aelodau o'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, gan gynnwys Nigel Winter o Stagecoach, gyfarfod â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 8 Gorffennaf i drafod y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau mewn mwy o fanylder.

**Gorchuddion wyneb**

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 13 Gorffennaf ynghylch newidiadau i'r ddyletswydd i gadw pellter corfforol o 2m, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus ar fesurau lliniaru ychwanegol y dylent eu hystyried er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r Coronafeirws pan fydd yn anodd neu'n amhosibl cadw pellter corfforol o 2m: [https://llyw.cymru/ailddechrau-trafnidiaeth-gyhoeddus-canllawiau-i-weithredwyr](https://llyw.cymru/ailddechrau-trafnidiaeth-gyhoeddus-canllawiau-i-weithredwyr)

Er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ar drafnidiaeth gyhoeddus pan nad yw bob amser yn bosibl cadw pellter corfforol o 2m, mae bellach yn orfodol i bobl wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym yn gobeithio y bydd y mesurau hyn o gymorth fel bod gweithredwyr yn gallu cynyddu nifer y teithwyr y gallant eu cludo yn eu cerbydau wrth i'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus ddechrau cynyddu unwaith eto.  Byddwn yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr bysiau, awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru er mwyn ailddechrau gwasanaethau bysiau lleol yn raddol, a gafodd eu lleihau o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Byddwn yn parhau i gydweithredu â phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol o'n cyngor ar ddefnyddio gorchuddion wyneb.

**Tacsis a cherbydau hurio preifat**

Rydym yn ymwybodol iawn o bryderon gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn sgil pandemig COVID-19 ac rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phanel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan mewn perthynas â dod o hyd i atebion i'r materion hyn. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfarwyddo mewn perthynas â thacsis a cherbydau hurio preifat o dan y ddeddfwriaeth frys newydd na'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer tacsis/cerbydau hurio preifat. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr)

yn darparu mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y penderfyniad i drwyddedu gyrrwr, cerbyd neu weithredwr.

Mae nifer o safonau diogelwch a phrofi perthnasol sy'n gymwys i sgriniau diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r safonau hyn yn sicrhau nad yw sgriniau yn peri risg o anaf i'r gyrrwr na'r teithwyr, naill ai yn y man arferol neu petai gwrthdrawiad; maent yn sicrhau bod sgriniau wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau addas, ac nad ydynt yn fflamadwy; maent yn sicrhau nad ydynt yn rhwystro'r gyrrwr rhag gweld; ac yn gwneud yn siŵr nad yw eu gosod yn peryglu mecanweithiau diogelwch integredig y cerbyd, megis bagiau aer ochr ac ati.

Gallai sgriniau nad ydynt wedi'u profi neu sy'n cael eu gosod yn anghywir beri nifer o risgiau difrifol i'r gyrrwr a'r teithwyr, felly mae'n bwysig bod eu diogelwch yn parhau i fod wrth wraidd ein canllawiau. Mae diogelwch cerbydau yn fater a gadwyd yn ôl ac ni allwn fynd yn groes i'r ddeddfwriaeth honno. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth y datganiad canlynol ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ein Cyngor ar Fasnach Tacsis er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol:

*‘Mae gosod rhwystrau neu sgriniau diogelwch yn benderfyniad ar gyfer awdurdodau trwyddedu, gweithredwyr cerbydau hurio preifat a’r cwmni/unigolyn sy’n gweithredu’r cerbyd, yn seiliedig ar eu hasesiad risg eu hunain.’*

Dylid nodi bod pob cerbyd newydd ei weithgynhyrchu wedi cyflawni Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan Ewropeaidd yn dilyn profion diogelwch cynhwysfawr. Mae'n bosibl y gall newid y tu mewn i'r cerbyd neu ychwanegu ato newid ‘cymeradwyaeth math’ y cerbyd. Mae Tîm Technegol Cymeradwyo Cerbydau yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau wedi nodi, os yw'r cerbyd wedi cael ei gymeradwyo, yna ni fyddai gosod partisiynau dros dro yn annilysu'r gymeradwyaeth honno, os oedd y cerbyd wedi'i gofrestru. Mae'n bwysig nodi, er y caniateir addasiadau, nad yw hyn yn golygu eu bod yn ddiogel ar gyfer y teithwyr. Felly dim ond ar sail dros dro rydym yn myfyrio ar osod sgriniau diogelwch.

Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu i'r sgrin gael ei gosod neu beidio. Mae hyn yn rhoi awdurdodau lleol mewn sefyllfa anodd oherwydd bydd yn rhaid iddynt bwyso a mesur y risg y gallai'r gyrrwr a'r teithwyr ddal COVID-19 a'r risgiau diogelwch posibl o ganlyniad i osod sgrin. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'n annhebygol y bydd llawer o'r cwmnïau sy'n gosod sgriniau diogelwch yn gallu darparu sicrwydd wedi'i ddogfennu mewn perthynas â'r pryderon diogelwch a amlinellwyd uchod. Heb y sicrwydd hwn, bydd yr awdurdod lleol yn ei chael hi'n anodd penderfynu a yw sgrin yn ddiogel, a gall yr awdurdod lleol fod yn atebol petai gyrrwr neu deithiwr yn cael ei anafu o ganlyniad i sgrin anniogel a gymeradwywyd.

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr yn ymdrin â'r mater hwn mewn nifer o ffyrdd gwahanol, gan amrywio o beidio â chaniatáu i unrhyw sgriniau dros dro gael eu gosod os nad oes ganddynt y ddogfennaeth ddiogelwch ofynnol, i ganiatáu i sgriniau dros dro gael eu gosod ond peidio â'u cymeradwyo mewn gwirionedd. Felly perchennog y cerbyd fydd yn atebol am y diogelwch. Mae'r holl ddulliau gwahanol yn codi nifer o gwestiynau ynghylch risg, diogelwch y gyrrwr a'r teithiwr a chyfreithlondeb mewn perthynas ag atebolrwydd.

Mae Awdurdodau Trwyddedu yn teimlo nad oes ganddynt yr arbenigedd technegol, yn enwedig am nad oes dogfennaeth ddiogelwch ffurfiol, i asesu addasrwydd a diogelwch sgriniau dros dro yn ddigonol. Felly, er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth i awdurdodau lleol, ysgrifennais at Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafnidiaeth i ofyn i'r Uned Safonau Diogelwch Cerbydau ddarparu rhywfaint o ganllawiau ymarferol i awdurdodau lleol a fyddai'n eu helpu i wneud penderfyniadau yn yr hinsawdd sydd ohoni. Cefais ymateb gan y Gwir Anrh Grant Shapps, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, dyddiedig 17 Mehefin

2020. Yn anffodus, ni lwyddodd ei ymateb i ymdrin â'm cais mewn perthynas â rhoi canllawiau ymarferol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt asesu addasrwydd sgriniau diogelwch.

Yn y cyfamser, mae swyddogion wedi cysylltu â'r Adran Drafnidiaeth a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ac maent yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn ceisio dod o hyd i ddull gweithredu cyffredin.

Mewn perthynas â'ch ymholiad ynghylch cymorth ariannol ar gyfer gosod sgriniau, byddai angen ystyried y mater hwn ymhellach gan ei fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis ymchwilio i argaeledd cenedlaethol cwmnïau sy'n gallu gosod sgriniau diogelwch sy'n bodloni'r holl safonau diogelwch angenrheidiol yn broffesiynol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19 presennol, rydym ar ddeall nad oes llawer o gwmnïau gosod sgriniau yn gweithredu yn y DU ar hyn o bryd ac mae'n debygol bod llawer o alw amdanynt, a allai arwain at gryn dipyn o oedi. Byddai angen ymchwilio ymhellach hefyd i werthuso cost a buddiannau ymarferol y dull gweithredu hwn gan nad ydym yn gwybod eto pa mor effeithiol yw sgriniau am atal trosglwyddiad COVID-19 ac, fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond ar sail dros dro y gellid gosod sgriniau neu fel arall byddai angen y gymeradwyaeth math cerbyd.

Nid ystyrir bod diwygio'r ddeddfwriaeth trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat dros dro mewn perthynas â sgriniau diogelwch yn angenrheidiol. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol eisoes yn darparu'r pwerau angenrheidiol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ystyried defnyddio sgriniau diogelwch dros dro mewn cerbydau trwyddedig. Yr hyn sydd ei angen yw set o ganllawiau cenedlaethol gan Lywodraeth y DU, fel yr amlinellwyd uchod, a fyddai'n helpu awdurdodau lleol i bennu addasrwydd gosodiadau o'r fath, a byddai'n darparu ar gyfer dull mwy cyson ledled Cymru.

**Maes Awyr Caerdydd**

Mae busnesau yn y diwydiant Hedfanaeth wedi wynebu newidiadau nas gwelwyd o'r blaen yn sgil COVID-19, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, sy'n golygu bod y maes awyr wedi gorfod ailystyried ei strategaeth gyllido gyfan. Yn fras, mae hynny'n golygu nad yw'r syniad o gyfran bellach gwerth £6.8m yn berthnasol mwyach a bod angen cynnwys hyn mewn ystyriaeth ehangach.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Maes Awyr i ddeall beth fydd y gofynion cyllido newydd tebygol a'r ffordd y cânt eu darparu'n fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant rheoliadol angenrheidiol sy'n fater a gadwyd yn ôl ac a bennir gan lywodraeth ganolog. Yn ychwanegol at y gwaith rydym yn ei wneud gyda'r maes awyr, rydym hefyd wedi galw ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i gefnogi'r diwydiant hedfanaeth (a meysydd awyr rhanbarthol yn benodol) i adfer yn dilyn effaith y pandemig. Un o'r meysydd rydym wedi gofyn iddi weithredu arno yw baich y costau anghymesur sy'n ofynnol er mwyn cynnal y gofynion diogelwch rheoliadol. Mae'n siomedig ein bod yn dal i aros am gymorth penodol gan Lywodraeth y DU yn y maes hwn.

**Hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus a newid i deithio mewn ceir**

Dylai'r mesurau rydym wedi'u cyflwyno i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ar drafnidiaeth gyhoeddus helpu'r diwydiant i ailddechrau gwasanaethau a rhoi'r hyder i'r cyhoedd ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau unrhyw newid i ddefnyddio ceir preifat neu atal yr arfer o ddefnyddio ceir yn lle trafnidiaeth gyhoeddus rhag dod yn ymddygiad sefydledig yn y tymor hwy.

Yn y cyfamser, rydym yn dal i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hanfodol yn unig a pharhau i weithio gartref os yw'n bosibl. Diben hyn yw parhau i

leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws a helpu i reoli'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus yn y byrdymor wrth i wasanaethau ailddechrau.

**Caergybi**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi pecyn cyllido gwerth £705m er mwyn helpu i reoli ffiniau Prydain ar ôl Brexit. Rydym ar ddeall bod y cyllid hwn ar gael i bob porthladd ledled y DU ac felly bydd ar gael i'r holl borthladdoedd yng Nghymru os bydd angen cymorth arnynt i adeiladu seilwaith ychwanegol lle y gallant neu, fel sy'n ymddangos yn debygol yng Nghaergybi er enghraifft, os bydd angen iddynt adeiladu cyfleusterau tollau mewndirol.

Mae trafodaethau diweddar â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch cefnogi'r llwybr rhwng Caergybi a Dulyn wedi bod yn adeiladol ac mae swyddogion bellach wedi cytuno ar egwyddorion i atgyfnerthu'r sefyllfa weithredol gyfredol a chytuno ar ymyriad pellach petai'r llwybr yn agos at fethu yn unol â'r hyn y cytunwyd arno ar gyfer llwybrau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod y cymorth ariannol yn ddefnyddiol ond nid yw'n hael. Ei nod yw lliniaru problem fyrdymor yn hytrach nag ystyried y goblygiadau ariannol ac economaidd parhaus a fydd yn codi yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Dyna pam ein bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar rôl ein porthladdoedd môr o ran cefnogi adferiad economaidd cyflym, gan gynnwys ystyried sut y gellir cryfhau eu gweithrediadau er mwyn lliniaru effeithiau tymor hwy colledion ariannol, trefniadau benthyciadau ac ati.

Mae cyfleoedd buddsoddi a thwf sylweddol ar gyfer porthladd Caergybi yn arbennig, gan gynnwys yr angorfa amlbwrpas arfaethedig yn Salt Island, ac rydym yn awyddus i ailddechrau trafodaethau â Stena ynghylch y cynigion hyn. Mae swyddogion am gael arweiniad cliriach gan Lywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ynghylch rhoi rheolaethau ar waith yn raddol ar gyfer gwiriadau wrth y ffin a pha gynigion sy'n cael eu hystyried ar gyfer Caergybi.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddESS@senedd.cymru

24 Awst 2020

Annwyl Russell,

Diolch am y cyfle i fynychu sesiwn eich Pwyllgor ar 11 Mai 2020. Gweler isod fy ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Mai ynghylch meysydd na chawsant eu cwmpasu yn ystod y sesiwn oherwydd y cyfyngiadau amser.

**Pa asesiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o effaith hirdymor y feirws ar y galw am drafnidiaeth a phatrymau teithio?**

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi comisiynu *'All Change?'* – arolwg hydredol i archwilio effaith COVID-19 ar agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â'r defnydd o drafnidiaeth. Amcan yr arolwg oedd deall ymddygiad teithio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud fel sail dros olrhain newidiadau mewn ymddygiad ymysg yr un grŵp o bobl dros amser ac wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Mae mwyafrif y canfyddiadau a geir yn yr adroddiad cryno ar lefel y DU. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod ymddygiad teithio wedi bod yn debyg ar draws y rhannau gwahanol o'r DU yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

*Defnydd o drafnidiaeth yn ystod y cyfyngiadau symud (23 Mawrth – 10 Mai)*

- Newidiodd y cyfyngiadau symud ymddygiad pobl; gan arwain at lai o deithio, llai o ddefnydd o geir a thrafnidiaeth gyhoeddus, a mwy o deithio llesol.
- Mathau preifat o gludiant a theithio llesol oedd y ffyrdd mwyaf cyffredin o deithio o gwmpas yn ystod y cyfyngiadau symud:
  - 63% a fu'n gyrru ceir yn ystod y cyfyngiadau symud, bu 65% yn cerdded neu'n olwyno i gyrraedd cyrchfan a bu 21% yn beicio. I'r gwrthwyneb, ni wnaeth cyfraddau uchel o bobl – 82% ac 88% yn y drefn honno – ddal bysiau na threnau.
  - Roedd y defnydd o fysiau yn uwch na'r defnydd o drenau; ond dim ond 6% a fu'n teithio ar fysiau unwaith yr wythnos neu'n amlach a hyd yn oed llai, 2%, a fu'n teithio ar drenau.
- Er bod ymddygiad teithio wedi tueddu i fod yn debyg ledled y DU, bu pobl sy'n byw yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon yn gyrru'n llawer amlach; teithiodd mwy na hanner (52%) y rheini sy'n byw yng Nghymru a dwy ran o dair (66%) o'r rheini sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon mewn car fel gyrrwr unwaith yr wythnos neu fwy o gymharu â 46% yn Lloegr a 47% yn yr Alban.Roedd y gostyngiad yn y mathau o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd yn fwyaf nodedig ar gyfer teithio mewn car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr), bws a thrên. Roedd y rheini sy'n byw yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn arbennig o debygol o ddweud eu bod wedi gyrru ychydig yn llai neu lai o lawer yn ystod y cyfyngiadau symud – 55% a 58% yn y drefn honno, o gymharu â 47% yn yr Alban a 48% yn Lloegr.

Arweiniodd y cyfyngiadau symud at newidiadau mewn cynlluniau siopa, hamdden, cymudo a theithio gyda phobl yn nodi eu bod yn gweithio gartref, yn teithio'n llai aml i fynd i siopa ac yn siopa'n agosach at gartref o gymharu â'r hyn roeddent yn ei wneud o'r blaen.

*Arwyddion a disgwyliadau ynghylch defnydd o drafnidiaeth yn y dyfodol (y pedair wythnos nesaf)*

Ar yr adeg y gwnaed y gwaith maes ar gyfer yr arolwg, roedd y rhan fwyaf yn disgwyl y byddent yn cynnal yr ymddygiadau teithio a oedd ganddynt yn ystod y cyfyngiadau symud:

- Mae cymudo a gweithio gartref yn debygol o fod yn ffactorau pwysig ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn disgwyl y byddant yn parhau i weithio gartref a theithio i'r gwaith yr un faint ag y gwnaethant yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Disgwylir i'r defnydd o deithio llesol a mathau preifat o drafnidiaeth barhau a'r ffyrdd o deithio y rhagwelir y byddant fwyaf cyffredin dros y pedair wythnos nesaf yw cerdded/ olwyno yr holl ffordd i gyrraedd cyrchfan, wedi'u dilyn gan yrru car.
- Mae'r defnydd a ddisgwylir o fathau preifat o drafnidiaeth yn gwrthgyferbynnu'n fawr â'r mathau cyhoeddus o drafnidiaeth;
    - mae 8% o'r farn eu bod yn sicr neu'n debygol iawn o deithio ar fysiau dros y pedair wythnos nesaf, a 5% ar drenau.
    - Mae un rhan o bump (19%) o'r rheini sy'n gweithio o'r farn ei bod 'eisoes' neu y bydd yr 'amser cywir' wedi cyrraedd i gymudo gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus dros y mis nesaf, ac mae 48% o'r un farn ynghylch gwneud hynny mewn ceir.
    - Dywedodd 70% na fyddent yn gyfforddus iawn os o gwbl i deithio ar fysiau, trenau, tramiau a gwasanaethau rheilffordd tanddaearol/metro.

*Camau gweithredu i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus:*

- 'Teithwyr a staff sy'n dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol wrth deithio (mewn arosfannau bysiau, ar blatfformau, ac mewn gorsafoedd)' yw'r opsiwn a gaiff ei ddewis amlaf o restr o 13 o gamau gweithredu fel yr hyn sydd fwyaf tebygol o annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus – gan 37% o'r bobl yn gyffredinol a 43% o'r rheini a oedd yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus unwaith yr wythnos neu fwy cyn y cyfyngiadau symud.
- Mae'r rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn wythnosol neu'n amlach hefyd yn rhoi blaenoriaeth i wisgo mygydau wyneb/gorchuddion wyneb (33%) ac i lanhau cerbydau trên/bysiau yn well/yn fanylach ac ati (31%).
- Nododd 11% (25% o'r cyhoedd ehangach) na fyddai yr un o'r mesurau hyn yn cynnig anogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth i nodi'r amrywiaeth o senarios posibl ar gyfer y galw am deithio yn y dyfodol. Mae'r rhain yn amrywio o ddychwelyd yn raddol i batrymau teithio blaenorol, ond gyda chyfran uwch o bobl yn gweithio gartref, i senarios mwy eithafol lle ceir cynnydd mawr yn y defnydd o geir preifat neu gwymp yn y galw am deithio. Nid oes unrhyw gonsensws eto ynghylch beth fydd yr effaith hirdymor.

Fel rhan o'r gwaith a wneir ar gyfer Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, mae Model Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i asesu effaith y cynnydd yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref ar y galw am deithio ar hyd coridorau ffordd/rheilffordd gwahanol. Yn seiliedig ar ddadansoddiadau economaidd ehangach a gynhaliwyd, rhagwelir y bydd y galw cyffredinol am deithio ar gyfer yr asesiad hwn yn gostwng tua 20% er bod rhai amrywiadau bach mewn ardaloedd yn seiliedig ar y prif

sectorau cyflogaeth. Caiff yr allbynnau o'r asesiad hwn eu hadolygu dros yr wythnosau i ddod.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda busnesau er mwyn deall eu disgwyliadau a'u cynlluniau ar gyfer cael staff i ddychwelyd i'r gwaith ac i weithio gartref. Caiff rhagdybiaethau rhagolygol eu haddasu yn seiliedig ar y gwaith hwn.

Gyda'r mathau newydd o drafnidiaeth ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru / De-orllewin a Chanolbarth Cymru ar gael i'w defnyddio dros yr haf, y bwriad yw rhedeg senarios ar ôl COVID-19 dros yr haf yn seiliedig ar well gwybodaeth am y tueddiadau mwyaf tebygol.

**Pa newidiadau hirdymor y gall fod eu hangen i flaenoriaethau o ran cyllideb trafnidiaeth a pholisïau yn gyffredinol?**

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Awdurdodau Lleol ynghylch sut y gallwn ddefnyddio argyfwng COVID-19 i gyflawni newid sylweddol mewn darpariaeth bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Caiff cyllid COVID-19 ar gyfer y diwydiant bysiau yn y dyfodol ei ddarparu drwy'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau.Caiff y cynllun ei gyflwyno fesul cam a bydd yn cynnig rhwydwaith mwy integredig a hyblyg er mwyn sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb i'r galw, yn darparu gwasanaethau hyblyg ac yn dyrannu unrhyw gyllid ychwanegol. Bydd y cyllid brys hwn, a gynhelir ar lefelau hanesyddol ar hyn o bryd, am gyfnod cychwynnol o dri mis a bydd yn darparu cymorth ariannol i'r diwydiant bysiau er mwyn sicrhau bod bysiau yn parhau i symud ledled Cymru.

Bydd y Cynllun yn darparu cymhorthdal gweithredu yn lle refeniw a gollwyd o ganlyniad i COVID-19 a bydd bysiau yn cludo llawer llai o deithwyr o ganlyniad i'r rheolau cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal â diwallu anghenion byrdymor brys, bwriedir i'r cytundeb sy'n sail i'r Cynllun gynrychioli dechrau partneriaeth barhaus rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus er mwyn gallu ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru, gan gefnogi'r broses reoli a rhyngweithio ar draws mathau o drafnidiaeth, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, llwybrau unedig a threfniadau amserlennu integredig.

Bydd gweithredwyr yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i benderfynu ar y llwybrau cychwynnol a pha mor aml y dylai gweithredwyr redeg gwasanaethau yn unol â'r cyllid sydd ar gael. Wrth gytuno ar y lefelau hyn ar gyfer gwasanaethau bysiau, bydd angen ystyried y canlynol:

- y ffordd orau o wasanaethu gweithwyr allweddol (gan gynnwys staff y GIG, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt);
- y ffordd orau o gefnogi gweithgarwch economaidd wrth i'r economi ailgychwyn;
- capasiti bysiau'r Gweithredwyr o ystyried y gostyngiad mewn patrymau gwasanaeth a'r gofyniad i gydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol;
- sut i ymdopi ag unrhyw brinder staff y mae Gweithredwyr yn ei wynebu.

Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru, yn dylunio cynllun ariannu newydd ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a fydd yn cynnwys dull teg a chyson o bennu prisiau siwrneiau a chynyddu defnydd, a chytundeb ag egwyddorion y Contract Economaidd a Siarter Gymdeithasol. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella gwasanaethau i deithwyr, gan gynnwys glendid, dibynadwyedd a diogelwch, a fydd yn hanfodol yn ystod y cyfnod adfer wrth inni gydweithio i sicrhau rhwydwaith bysiau effeithlon, cynaliadwy a chadarn ar gyfer y dyfodol.

**Pa effaith a gaiff y pandemig ar hyfywedd a darpariaeth buddsoddiadau seilwaith mawr? Yn benodol, darparu cynllun trydaneiddio'r cymoedd, y tair rhaglen metro yn fwy cyffredinol a'r cynlluniau priffyrdd?**

Rydym wedi llwyddo i gwblhau'r broses o drosglwyddo asedau rheilffordd oddi wrth Network Rail. Mae wedi cymryd sawl blwyddyn o waith paratoi a thrafodaethau cyfreithiol cymhleth i gyrraedd y pwynt hwn, a hoffem ddiolch i'r holl bartneriaid dan sylw am eu gwaith caled a'u cydweithrediad.

Mae'r gwaith ar Fetro De Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Ar ddechrau'r flwyddyn, agorodd Trafnidiaeth Cymru Hwb Seilwaith y Metro yn Nhrefforest, ynghyd â dechrau'r gwaith adeiladu ar ein Depo a Chanolfan Reoli'r Metro yn Ffynnon Taf. Mae wedi bod yn gwneud gwaith arolygu a dylunio ar draws llinellau rheilffordd y cymoedd, ac rwy'n falch y disgwylir i'r gwaith paratoi tir ddechrau dros yr haf.

Mae'n anochel y bydd y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r coronafeirws (COVID-19) yn effeithio ar y gwaith hwn oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, a'r effaith bosibl ar waith cynhyrchu ac argaeledd y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, hoffem eich sicrhau y dilynir canllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau y gellir cyflawni rhaglen Trawsnewid y Metro yn ddiogel.

Mewn perthynas â Metro Gogledd Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn bwrw ymlaen â nifer o fentrau yn cynnwys y gwaith i wella Gorsaf Shotton a chreu gorsaf reilffordd newydd yng Nglannau Dyfrdwy. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas ag adolygu'r rhwydwaith bysiau ac mae strwythur llywodraethu bellach ar waith i reoli'r rhaglen o fentrau i ddatblygu system drafnidiaeth integredig yng Ngogledd Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru i ddatblygu model trafnidiaeth strategol. Bydd hwn yn llywio penderfyniadau buddsoddi yng Nghanolbarth Cymru a'r gwaith o ddatblygu Gweledigaeth y Metro yn Ne-orllewin Cymru a'r Cynllun Cyflenwi. Rydym yn bwriadu rhoi diweddariad ar y gwaith hwn cyn diwedd y flwyddyn.

*Cynlluniau priffyrdd*

Gwnaed Rheoliadau newydd, sef Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Cofonafeirws) (Diwygio) (Cymru) 2020 (a wnaed ar 3 Ebrill ac a ddaeth i rym ar 12.01am ddydd Mawrth 7 Ebrill) a gyflwynodd ofyniad i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn y gweithle.

Mae'r gweithle yn cynnwys sefyllfaoedd agored fel safleoedd adeiladu a gwaith ffordd. Mae'r ddyletswydd i gadw pellter yn agored i 'fesurau rhesymol' er mwyn cydymffurfio, ac mae hyn wedi'i nodi yn y Canllawiau ar gyfer y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Ebrill. Yn ogystal, mae cyrff proffesiynol, diwydiant a masnach eraill, yn cynnwys y Cyngor Arwain ar Adeiladu ar gyfer y diwydiant adeiladu, wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ac arferion gorau.

Felly, mae gwaith ar gynlluniau priffyrdd yn parhau yn unol â'r canllawiau presennol hyn. Mae nifer o fesurau a rheolaethau ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i helpu pobl i gydymffurfio â'r canllawiau. Ymysg y mesurau hyn mae gweithio gartref lle bynnag y bo'n bosibl, cerbydau safle ychwanegol, staff glanhau ychwanegol, trefniadau lles diwygiedig a sesiynau briffio o bell mewn grwpiau llai neu'n unigol neu'n electronig.

**Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Adferiad o'r pandemig yn sôn am fanteisio ar y newidiadau a all gael effaith gadarnhaol ymhell i'r dyfodol. Beth allai hyn ei gynnwys yn y maes trafnidiaeth?**

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, cafwyd cynnydd mawr yn nifer yr unigolion a'r teuluoedd sy'n cerdded ac yn beicio, ar gyfer ymarfer corff ac er mwyn gwneud teithiau angenrheidiol. Nawr, mae angen inni weithredu i gynnal yr ymddygiadau teithio iach hyn sy'n ystyriol o'r hinsawdd ac osgoi dychwelyd i ddewisiadau teithio sy'n dibynnu'n sylweddol ar geir.

Dyrannwyd £15.4m o gyllid i awdurdodau lleol er mwyn cyflwyno mesurau i wella diogelwch ac amodau ar gyfer mathau cynaliadwy a llesol o deithio yn eu hardal mewn ymateb i argyfwng COVID-19 ac i gyflawni newidiadau parhaus mewn ymddygiad teithio yn y dyfodol. Bydd y cyllid yn gwella amodau i gerddwyr a beicwyr mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Cawsom gyfanswm o 209 o gynigion ar gyfer mesurau gan yr holl awdurdodau lleol mewn ymateb i'r gwahoddiad am ddatganiadau o ddiddordeb. Mae hyn yn dangos yn glir yr angen i gyflwyno mesurau i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd ac i alluogi pobl i ddewis y mathau mwyaf iach a chynaliadwy o drafnidiaeth ar gyfer teithiau byrrach nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â pharodrwydd awdurdodau lleol i gyflwyno hyn. Mewn cydweithrediad â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, rydym yn bwriadu datblygu'r gyfran hon a sicrhau bod rhagor o gyllid ar gael pan fydd ei angen. Byddwn yn mynd ati i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn datblygu rhagor o ymyriadau uchelgeisiol fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Trefi.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**KS/293/20**

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

3 Medi 2020

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn ein hymddangosiad ger bron y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf.

Amgaewn atebion i'r cwestiynau rydych wedi'u codi.

Yn gywir,

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

**Lee Waters AS/MS**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 16 Gorffennaf**

**Camau dilynol**

**<u>Y Gronfa Cadernid Economaidd</u>**
**Diolch am gynnig nodyn briffio cynhwysfawr ar y data sy'n ymwneud â cham 1 yr ERF. Mae'r aelodau'n disgwyl ymlaen at ei weld.**

Cafwyd cyfanswm o ryw 250,000 o ymwelwyr unigryw â Gwiriwr Cymhwysedd yr ERF ar wefan Busnes Cymru, ac adeg y cyfnodau prysuraf, roedd tros 4,000 o ddefnyddwyr yn defnyddio'r system yr un pryd. Llwyddodd Busnes Cymru i brosesu dros 15,000 o geisiadau gan neilltuo bron 12,000 o grantiau gwerth cyfanswm o £180m.

Atodwn ddolen i dudalen ar wefan Busnes Cymru sy'n dangos manylion y cyrff y dyfarnwyd grantiau iddynt, wedi'u rhannu yn ôl sector a rhanbarth – ar gyfer Cam 1 yr ERF.
https://businesswales.gov.wales/cy/llywodraeth-cymru-cronfa-cadernid-economaidd-sefydliadau-ddyfarnwyd-cam-1

Neilltuwyd cyfanswm o £124.4m o gyllid i 6,946 o ficro-fusnesau a busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn ystod cam 1 yr ERF.

Rydym wrthi'n cadarnhau manylion yr hyn a neilltuwyd i fusnesau mwy.

Mae'n bosibl bod 77,000 o swyddi wedi cael help i oroesi diolch i gam 1 yr ERF.

**Hoffem ofyn hefyd am nodyn tebyg am gam 2.**

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth i'r Pwyllgor cyn gynted ag y cyhoeddwn fanylion cynhwysfawr cam 2 yr ERF.

Ar hyn o bryd, gallwn gadarnhau bod cyfanswm o £57.4m wedi'i neilltuo i 4,724 o ficro-fusnesau a BBaChau yn ystod cam 2 yr ERF.

Efallai y carai'r Pwyllgor nodi hefyd:

- Ar 18 Awst, bod 1,437 o grantiau i fusnesau newydd wedi'u cymeradwyo.
- Mae cyfanswm o 1,331 o fusnesau wedi bod ar ofyn Cynllun Benthyciad Busnesau Cymru Covid-19 (CWBLS) Banc Datblygu Cymru – a bod ychydig dros £92m wedi'i ddarparu i helpu i ddiogelu 16,000 o swyddi.

**Gan edrych tuag at gam 3 y Gronfa, rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn agored i glywed syniadau'r Pwyllgor ynghylch ei gynnwys. Rwy'n nodi i'r Gweinidog ddweud bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r cam hwn helpu busnesau i dyfu, creu mwy o gyfleoedd gwaith a chryfhau'r economi. O ran y potensial i lenwi bylchau yn y cymorth i'r sectorau neu gymorth arall, dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod yn aros am ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Pwyllgor Dethol y Trysorlys 'Economic Impact of Coronavirus: Gaps in Support'. <u>A ninnau bellach wedi cael ymateb gan Lywodraeth y DU, a wnaiff y Gweinidog esbonio wrth y Pwyllgor y mathau o gymorth fydd ar gael yng ngham 3 a ph'un a yw Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried creu cronfa galedi bosibl gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?</u>**

Ers cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf, cyhoeddon ni ar 28 Gorffennaf y caiff bron £40 miliwn o'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) ei fuddsoddi i'n helpu i gadw at ein "Hymrwymiad Covid" i Gyflogadwyedd a Sgiliau. Bydd yr arian hwn yn sicrhau y bydd pawb dros 16 oed yng Nghymru yn gallu cael cyngor a chefnogaeth i gael hyd i waith, i fod yn hunangyflogedig neu i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant. Caiff ei dargedu at yr unigolion ym Marchnad Lafur Cymru fydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau negyddol. Bydd hyn yn helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn y ffordd fwyaf uniongyrchol posibl.

Rydym wrthi'n cadarnhau manylion asesiad o effeithiau'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a fydd yn ein helpu i weld sut y gallwn gefnogi busnesau yn y dyfodol. Rydym yn ystyried yn ofalus hefyd sut y gallwn ddefnyddio'r arian sy'n weddill yn yr ERF i helpu busnesau a bywoliaethau yn y misoedd i ddod.

Fel y dywedon ni yn y cyfarfod ar 16 Gorffennaf, rydym am i'r arian hwn fod yn gyfraniad positif at greu twf a chyfleoedd, ond rwy'n cydnabod hefyd y bydd gofyn i ni wneud popeth y gallwn ni i gefnogi busnesau pe bai'r sefyllfa anffodus yn codi bod angen rhoi mesurau clo ar waith unwaith eto. Rydym wedi nodi ystod o opsiynau ar gyfer defnyddio'r arian sy'n weddill yn yr ERF ac ar ôl ystyried yr opsiynau hyn, byddwn yn cyhoeddi trefniadau ar gyfer defnyddio'r arian mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod ystod eang o anghenion yn cael eu diwallu yn y ffordd orau bosibl.

Nid fydd yr arian sydd ar gael i ni yn agos at fod yn ddigon i gymryd lle'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y DU trwy ei Chynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig ac rydym yn galw eto arni i beidio â dod â'r cynlluniau hyn i ben yn ddisymwth ar 31 Hydref.

**Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd bod swyddogion wedi bod yn dadansoddi'r bylchau yn y cymorth ac ar sail y bylchau a welwyd, dywedodd y byddai'r risg o dwyll a chost weinyddol teilwra cynllun ar gyfer nifer mor fach o bobl yn fwy na'r budd a geid ohono. All y Gweinidog rannu'r dadansoddiad hwn â'r Pwyllgor?**

Rydym wrthi o hyd yn caboli'r astudiaeth hon fel rhan o'r asesiad y cyfeirir ato uchod o effeithiau'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a byddwn yn rhannu'r dadansoddiad â'r Pwyllgor unwaith y bydd hwn a gwaith cysylltiedig wedi'i gwblhau.

**Sgriniau ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat**

**Yn ystod y sesiwn, cododd Aelodau fater ffitio sgriniau diogelwch mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.  Er i'r Dirprwy Weinidog esbonio nad yw diogelwch mewn cerbydau yn fater wedi'i ddatganoli, roedd Aelodau am wybod a fyddai Llywodraeth Cymru am ystyried gwneud newidiadau dros dro i'r rheoliadau trwyddedu sydd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli.**
**Mae'r Pwyllgor eisoes wedi clywed tystiolaeth gan yr undebau y byddai gofyn i'r gyrrwr wneud cais i'r awdurdod lleol i gael newid ei drwydded a chael gosod sgrin rhyngddo a'r teithwyr.  Mae'r undebau wedi gofyn am gael llacio'r gofyn hwn.**

Nid yw gosod sgrin ddiogelwch mewn tacsi neu gerbyd hurio o reidrwydd yn golygu bod angen newid trwydded y cerbyd.  Bydd yn dibynnu ar bolisi ac amodau'r awdurdod lleol unigol.  Mae'r ddeddfwriaeth eisoes yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd felly i awdurdodau lleol o ran gofynion y polisi a'r amodau trwyddedu maent yn eu rhoi ar waith.

Ond mae angen i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod y cerbyd yn ddiogel ar gyfer ei drwyddedu.  Bydd rhaid iddynt fod yn fodlon nad yw'r sgrin ddiogelwch, o ran ei hadeiladwaith na chwaith sut y mae'n cael ei gosod, yn peryglu'r gyrrwr na'r teithiwr, yn enwedig pa bai damwain.  Mae pryderon y gallai sgrin anaddas neu sgrin sydd wedi'i chamosod amharu ar y nodweddion diogelwch sydd eisoes yn y tacsi megis bagiau aer neu ei gwneud yn anodd gadael neu mynd i mewn i'r tacsi ar ôl gwrthdrawiad.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â'r Adran Drafnidiaeth (DfT) a'r Asiantaeth Gyrwyr a Safonau Cerbydau (DVSA) i ddeall gofynion diogelwch perthnasol sgriniau dros dro ac wedi siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolwyr awdurdodau lleol i gael hyd i ffordd fwy cyson o ddelio â'r mater hwn. Mae'r sefyllfa'n un gymhleth ac nid oes un math o sgrin fyddai'n gwneud y tro i bawb a bydd angen i awdurdodau lleol ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau er mwyn cadw gyrwyr a theithwyr fel ei gilydd yn ddiogel.

Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o hyd i brofi bod sgriniau diogelwch yn lleihau'r risg o drosglwyddo Covid-19 gan nad yw'r rhan fwyaf yn creu gofod wedi'i selio.

Ceir cyngor i yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat ar Covid-19, gan gynnwys mesurau i leihau'r risg o'i drosglwyddo, ar y wefan https://llyw.cymru/canllawiau-ar-dacsis-cherbydau-hurio-preifat

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

**Fel yr ydym wedi'i drafod, mae'r diwydiant bysiau mewn sefyllfa beryglus. Mae memorandwm esboniadol y Bil yn nodi ei bod yn hanfodol bod gan awdurdodau lleol yr offer cywir i sicrhau bod gwasanaethau bysiau'n cael eu darparu'n briodol yn eu hardal. Mae'r memorandwm esboniadol hefyd yn ailadrodd uchelgais Llywodraeth Cymru i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig sy'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn brydlon, yn amgylcheddol gynaliadwy, yn hygyrch ac yn ymateb i ddiwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio. Carai'r Pwyllgor wybod pa gynlluniau penodol sydd yn eu lle i wireddu'r uchelgais hwn heb yr offer sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Yn benodol, a wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried datblygu cyllid y Cynllun Argyfwng Bysiau at y diben hwn?**

Mae darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig a diwygio gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth fawr i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn pandemig y Covid19, rydym wedi rhoi ystyriaeth frys i sut i fynd i'r afael â hyn, p'un ai trwy ddeddfwriaeth neu ddulliau eraill, neu'r ddau.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, gwnaethom ddatblygu'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau i gefnogi'r diwydiant yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion brys tymor byr, mae'r cytundeb sy'n sail i'r cynllun yn rhoi cyfle i ddechrau partneriaeth barhaol rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus fydd yn eu galluogi i ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru. Gan adeiladu ar y bartneriaeth hon, bydd Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth TrC, yn dylunio cynllun ariannu newydd ar y cyd ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau a fydd yn cynnwys dull teg a chyson o bennu prisiau tocynnau, cynyddu teithwyr, a chytundeb ar egwyddorion Contract Economaidd a Siarter Gymdeithasol. O'i gwneud hi fel hyn, gallwn gydweithio i wella gwasanaethau i deithwyr a helpu i wireddu'n huchelgais ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus integredig. Yn y tymor hwy, bydd angen deddfwriaeth i ategu'r cynnydd a wnaed drwy'r Cynllun Brys ac i gefnogi trefniadau ariannu yn y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried yn union pa ddeddfwriaeth y gallai fod ei hangen yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol ein bod, ar 1 Awst, wedi cyhoeddi £10m yn ychwanegol o gyllid i wella lefelau'r gwasanaethau bysiau rheolaidd tan ddiwedd mis Medi. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-covid-19-darparu-mwy-o-wasanaethau-o-dan-y-cynllun-brys-ar-gyfer-y-sector
Mae cyhoeddiad ffurfiol am rownd cyllido newydd i gefnogi'r diwydiant bysiau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.

**Yr achos busnes dros drosglwyddo swyddogaethau i Trafnidiaeth Cymru**

**Roedd ateb Simon Jones ynghylch yr achos busnes dros drosglwyddo swyddogaethau i Trafnidiaeth Cymru yn ddiddorol iawn yn fy marn i. Dywedodd Simon wrth y Pwyllgor y byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud nawr ar y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau yn effeithio ar drosglwyddo swyddogaethau am fysiau. A fyddech cystal ag esbonio beth fydd yr effeithiau hyn?**
**Rwy'n deall y byddai'r gwaith brys ar COVID wedi arafu peth o'r gwaith ar drosglwyddo swyddogaethau. Er hynny, mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i weld yr achos busnes ers tro. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod pryd y bydd Llywodraeth Cymru'n debygol o gyhoeddi'r achos busnes hwn?**

Mae'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau wedi prysuro rhai o'r newidiadau roeddem eisoes yn eu rhagweld i'r ffordd y mae bysiau'n cael eu rheoli a'u trefnu yng Nghymru, yn ogystal â chynnig syniadau hollol newydd.

O ganlyniad iddo, mae TrC yn chwarae mwy o rôl ym myd y bysiau nag yr oedd cyn yr argyfwng, hynny er mwyn cefnogi Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Lleol. Bydd ein Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau'n parhau i esblygu, fel y bydd rôl TrC ar ran Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Rydym yn cydweithio'n glos â llywodraeth leol, CLlLC a chwmnïau bysiau wrth i bethau ddatblygu a rôl newydd TrC ymddangos.

Byddwn yn ysgrifennu eto at y Pwyllgor unwaith y daw'r gwaith hwn i ben.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon